

RHESTR O WELLIANNAU WEDI’U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil Seilwaith (Cymru) Infrastructure (Wales) Bill

Mae’r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu’n rhai sydd wedi’u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag ‘R’ yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu
17 wrth gyflwyno’r gwelliant.

Amendments marked ‘R’ mean that the Member has declared either a registrable interest
under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling
the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn –
The Bill will be considered in the following order –

Sections 1 – 60	Adrannau 1 – 60
Schedule 1	Atodlen 1
Sections 61 – 90	Adrannau 61 – 90
Schedule 2	Atodlen 2
Sections 91 – 142	Adrannau 91 – 142
Schedule 3	Atodlen 3
Sections 143 – 144	Adrannau 143 – 144
Long Title	Teitl Hir

Janet Finch-Saunders

95

Section 1, page 1, after line 15, insert –

‘(2) In this Part, “significant” means projects which meet the thresholds set out in Part 1 of this Act.’.

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 15, mewnosoder –

‘(2) Yn y Rhan hon, ystyr “arwyddocaol” yw prosiectau sy’n bodloni’r trothwyon a nodir yn Rhan 1 o’r Ddeddf hon.’.

Adam Price [R] **191**

Section 2, page 1, at the beginning of line 18, insert 'Subject to the requirement in subsection ([subsection to be inserted by amendment 195]),'.

Adran 2, tudalen 1, ar ddechrau llinell 18, mewnosoder 'Yn ddarostyngedig i'r gofyniad yn is-adran ([is-adran i'w mewnosod gan welliant 195]),'.

Adam Price [R] **192**

Section 2, page 2, after line 3, insert –

- '() the installation of an electric line underground in Wales that is –
 - (i) expected to have a nominal voltage of 132 kilovolts and be no less than 2 kilometres long (to the extent it is in Wales), and
 - (ii) associated with the construction, extension or alteration of a generating station to which paragraphs (a) to (d) apply.'

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 3, mewnosoder –

- '() gosod llinell drydan o dan y ddaear yng Nghymru –
 - (i) y disgwylir y bydd ganddi foltedd enwol o 132 o gilofoltau ac y bydd yn 2 gilometr o hyd o leiaf (i'r graddau y bo yng Nghymru), a
 - (ii) sy'n gysylltiedig ag adeiladu, estyn neu addasu gorsaf gynhyrchu y mae paragraffau (a) i (d) yn gymwys iddi.'

This amendment provides that underground electric lines are defined as significant infrastructure projects for the purposes of the Bill, in line with the requirements in the Bill (as introduced) for above ground electric lines.

Mae'r gwelliant hwn yn darparu bod llinellau trydan o dan y ddaear yn cael eu diffinio fel prosiectau seilwaith arwyddocaol at ddibenion y Bil, yn unol â'r gofynion yn y Bil (fel y'i cyflwynwyd) ar gyfer llinellau trydan uwchben y ddaear.

Janet Finch-Saunders **96**

Section 2, page 2, line 4, after 'ground', insert 'or underground'.

Adran 2, tudalen 2, llinell 4, ar ôl 'ddaear', mewnosoder 'neu o dan y ddaear'.

Janet Finch-Saunders **37**

Section 2, page 2, line 5, leave out 'expected to have a nominal voltage of 132 kilovolts and be'.

Adran 2, tudalen 2, llinell 5, hepgorer 'y disgwylir y bydd ganddi foltedd enwol o 132 o gilofoltau ac y bydd yn' a mewnosoder 'sy'n'.

Adam Price [R] **193**

Section 2, page 2, after line 8, insert –

'() the only economically viable means of achieving the purpose of the development, in accordance with subsection ([subsection to be inserted by this amendment]).

- () A developer seeking to install an electric line above ground in Wales must comply with the requirements specified in regulations to demonstrate that the above ground electric line is necessary for the associated generating station to be economically viable.'

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 8, mewnosoder –

'() sydd yr unig ddull economaidd hyfyw o gyflawni diben y datblygiad, yn unol ag is-adran ([is-adran i'w mewnosod gan y gwelliant hwn]).

- () Rhaid i ddatblygwr sy'n ceisio gosod llinell drydan uwchben y ddaear yng Nghymru gydymffurfio â'r gofynion a bennir mewn rheoliadau i ddangos bod y llinell drydan uwchben y ddaear yn angenrheidiol er mwyn i'r orsaf gynhyrchu gysylltiedig fod yn economaidd hyfyw.'

This amendment exempts above (as opposed to below) ground electricity lines from being categorised as significant infrastructure projects, except where that renders the associated electricity generating development unviable, reflecting the existing planning policy assumption. The meaning of economic viability, and the means by which it would be determined, would be defined in regulations.

Mae'r gwelliant hwn yn esemptio llinellau trydan uwchben y ddaear (yn hytrach nag o dan y ddaear) rhag cael eu categorio'n brosiectau seilwaith arwyddocaol, ac eithrio pan fo hynny'n gwneud y datblygiad cynhyrchu trydan cysylltiedig yn anhwyfwr, sy'n adlewyrchu'r rhagdybiaeth bresennol o ran polisi cynllunio. Byddai ystyr hyfywedd economaidd, a'r dull a fyddai'n cael ei ddefnyddio i benderfynu arno, yn cael eu diffinio mewn rheoliadau.

Adam Price [R]

194

Section 2, page 2, after line 8, insert –

'() not to include the construction of overhead electricity lines in environmentally and culturally sensitive landscape areas.'

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 8, mewnosoder –

'() nad yw i gynnwys adeiladu llinellau trydan uwchben mewn ardaloedd tirwedd sy'n amgylcheddol a diwylliannol sensitif.'

This probing amendment seeks to exempt developments involving overhead electricity lines that traverse certain environmentally and culturally sensitive landscapes from being categorised as significant infrastructure projects.

Mae'r gwelliant pricio hwn yn ceisio esemptio datblygiadau sy'n cynnwys llinellau trydan uwchben sy'n croesi tirweddau amgylcheddol a diwylliannol sensitif penodol rhag cael eu categorio'n brosiectau seilwaith arwyddocaol.

Adam Price [R]

195

Section 2, page 2, after line 8, insert –

- '() Developments under paragraphs (a) to (d) must demonstrate that they have satisfied the minimum local ownership requirement in respect of the project.
- () The "minimum local ownership requirement" for the purposes of subsection ([first subsection to be inserted by this amendment]) must be defined in regulations.

- () Regulations under subsection ([*second subsection to be inserted by this amendment*]) must include the rules by which offers of local ownership must be made.’.

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 8, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i ddatblygiadau o dan baragraffau (a) i (d) ddangos eu bod wedi bodloni’r gofyniad sylfaenol o ran perchnogaeth leol mewn cysylltiad â’r prosiect.
- () Rhaid i’r “gofyniad sylfaenol o ran perchnogaeth leol” at ddibenion is-adran ([*is-adran cyntaf i’w mewnosod gan y gwelliant hwn*]) gael ei ddiffinio mewn rheoliadau.
- () Rhaid i reoliadau o dan is-adran ([*ail is-adran i’w mewnosod gan y gwelliant hwn*]) gynnwys y rheolau y mae rhaid eu dilyn wrth gynnig perchnogaeth leol.’.

This amendment provides that electricity generating stations within section 2(1)(a)-(d) cannot be SIPs unless they meet requirements for local ownership. “Minimum local ownership requirements” and the rules by which offers of local ownership can be made will be defined in regulations.

Mae’r gwelliant hwn yn darparu na chaiff gorsafoedd cynhyrchu trydan yn adran 2(1)(a)-(d) fod yn brosiectau seilwaith arwyddocaol oni bai eu bod yn bodloni’r gofynion ar gyfer perchnogaeth leol. Caiff “gofynion sylfaenol o ran perchnogaeth leol” a’r rheolau y mae rhaid eu dilyn wrth gynnig perchnogaeth leol eu diffinio mewn rheoliadau.

Adam Price [R]

196

Section 2, page 2, after line 9, insert –

“environmentally and culturally sensitive landscape areas” (“*ardaloedd tirwedd sy’n amgylcheddol a diwylliannol sensitif*”) means –

- (a) national parks;
- (b) areas of outstanding natural beauty;
- (c) heritage coasts;
- (d) national nature reserves;
- (e) areas included in the registers of areas of outstanding and special historic interest;
- (f) special landscape areas or their equivalent included in Local Development Plans;
- (g) any other areas specified in regulations.’.

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 10, mewnosoder –

‘ystyr “ardaloedd tirwedd sy’n amgylcheddol a diwylliannol sensitif” (“*environmentally and culturally sensitive landscape areas*”) yw –

- (a) parciau cenedlaethol;
- (b) ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol;
- (c) arfordiroedd treftadaeth;
- (d) gwarchodfeydd natur cenedlaethol;
- (e) ardaloedd sydd wedi eu cynnwys yn y cofrestrau o ardaloedd o ddiddordeb hanesyddol eithriadol ac arbennig;
- (f) ardaloedd tirwedd arbennig, neu’r hyn sy’n cyfateb iddynt, sydd wedi eu cynnwys mewn Cynlluniau Datblygu Lleol;

(g) unrhyw ardaloedd eraill a bennir mewn rheoliadau.’.

Delyth Jewell 139

Page 4, line 2, leave out section 5.

Tudalen 4, llinell 2, hepgorer adran 5.

Janet Finch-Saunders 97

Section 5, page 4, line 4, after ‘Wales’, insert ‘or the Welsh marine area’.

Adran 5, tudalen 4, llinell 4, ar ôl ‘Nghymru’, mewnosoder ‘neu yn ardal forol Cymru’.

Janet Finch-Saunders 98

Section 5, page 4, line 7, after ‘Wales’, insert ‘or the Welsh marine area’.

Adran 5, tudalen 4, llinell 6, ar ôl ‘Nghymru’, mewnosoder ‘neu yn ardal forol Cymru’.

Delyth Jewell 140

Page 4, line 10, leave out section 6.

Tudalen 4, llinell 9, hepgorer adran 6.

Janet Finch-Saunders 99

Section 7, page 5, after line 15, insert –

“significant effect on the environment” (“*effaith sylweddol ar yr amgylchedd*”) means a substantial, adverse change in any of the physical conditions within the area affected by the project including land, air, water, minerals, flora, fauna, ambient noise, and object of historic or aesthetic significance.’.

Adran 7, tudalen 5, ar ôl llinell 11, mewnosoder –

‘ystyr “*effaith sylweddol ar yr amgylchedd*” (“*significant effect on the environment*”) yw newid sylweddol, andwyol yn unrhyw un neu ragor o’r cyflyrau ffisegol o fewn yr ardal y mae’r prosiect yn effeithio arni gan gynnwys tir, aer, dŵr, mwynau, fflora, ffawna, sŵn amgylchynol, a gwrthrych o arwyddocâd hanesyddol neu esthetig;’.

Janet Finch-Saunders 100

Section 8, page 5, line 18, after ‘Wales’, insert ‘or the Welsh marine area’.

Adran 8, tudalen 5, llinell 19, ar ôl ‘Nghymru’, mewnosoder ‘neu yn ardal forol Cymru’.

Janet Finch-Saunders 101

Section 8, page 5, line 26, after ‘Wales’, insert ‘or the Welsh marine area’.

Adran 8, tudalen 5, llinell 27, ar ôl 'Nghymru', mewnosoder 'neu yn ardal forol Cymru'.

Janet Finch-Saunders

38

Section 10, page 7, line 16, leave out 'effect of the alteration is expected to be to increase by at least the relevant quantity per year the quantity of material the embarkation or disembarkation of which the facilities are capable of handling' and insert 'harbour will be capable of handling cargo ships, container ships, cruise ships and roll-on roll-off ships'.

Adran 10, tudalen 7, llinell 17, hepgorer 'disgwyllir mai effaith yr addasiad yw cynyddu swm y deunydd y mae'r cyfleusterau yn gallu trin ei lwytho neu ei ddadlwytho y swm perthnasol y flwyddyn o leiaf' a mewnosoder 'bydd yr harbwr yn gallu trin llongau cargo, llongau cynwysyddion, llongau mordeithio a llongau gyrru i mewn ac allan'.

Janet Finch-Saunders

39

Section 10, page 7, line 19, leave out subsections (3) to (5).

Adran 10, tudalen 7, llinell 20, hepgorer is-adrannau (3) i (5).

Janet Finch-Saunders

40

Section 10, page 8, after line 7, insert –

“cruise ship” (“*llong fordeithio*”) means a ship which is used for carrying people for leisure purposes;’.

Adran 10, tudalen 8, ar ôl llinell 3, mewnosoder –

‘ystyr “*llong fordeithio*” (“*cruise ship*”) yw llong a ddefnyddir i gludo pobl at ddibenion hamdden;’.

Janet Finch-Saunders

41

Section 10, page 8, leave out lines 8 to 9.

Adran 10, tudalen 8, hepgorer llinellau 9 hyd at 10.

Janet Finch-Saunders

42

Section 10, page 8, leave out line 12.

Adran 10, tudalen 8, hepgorer llinell 11.

Janet Finch-Saunders

43

Section 10, page 8, leave out lines 13 to 14.

Adran 10, tudalen 8, hepgorer llinellau 12 hyd at 13.

- Janet Finch-Saunders** 102
Section 12, page 9, line 23, after 'Wales', insert 'or the Welsh marine area'.
Adran 12, tudalen 9, llinell 23, ar ôl 'Nghymru', mewnosoder 'neu yn ardal forol Cymru'.
- Janet Finch-Saunders** 44
Section 12, page 9, line 24, leave out '10' and insert '30'.
Adran 12, tudalen 9, llinell 24, hepgorer '10' a mewnosoder '30'.
- Janet Finch-Saunders** 103
Section 12, page 9, line 25, after 'metres', insert 'and the deployable output is expected to exceed 80 million cubic litres per day'.
Adran 12, tudalen 9, llinell 25, ar ôl 'ciwbig', mewnosoder 'ac os yw'r allbwn disgwylidig y gellir ei ddefnyddio yn fwy na 80 miliwn o litrau ciwbig y dydd'.
- Janet Finch-Saunders** 104
Section 12, page 9, line 26, after 'Wales', insert 'or the Welsh marine area'.
Adran 12, tudalen 9, llinell 26, ar ôl 'Nghymru', mewnosoder 'neu yn ardal forol Cymru'.
- Janet Finch-Saunders** 45
Section 12, page 9, line 28, leave out '10' and insert '30'.
Adran 12, tudalen 9, llinell 28, hepgorer '10' a mewnosoder '30'.
- Janet Finch-Saunders** 105
Section 12, page 9, line 28, after 'metres', insert 'and the additional deployable output is expected to exceed 80 million cubic litres per day'.
Adran 12, tudalen 9, llinell 28, ar ôl 'ciwbig', mewnosoder 'ac os yw'r allbwn ychwanegol disgwylidig y gellir ei ddefnyddio yn fwy na 80 miliwn o litrau ciwbig y dydd'.
- Janet Finch-Saunders** 106
Section 13, page 9, line 33, after 'Wales', insert 'or the Welsh marine area'.
Adran 13, tudalen 9, llinell 33, ar ôl 'Nghymru', mewnosoder 'neu yn ardal forol Cymru'.
- Janet Finch-Saunders** 107
Section 13, page 10, leave out line 2.

Adran 13, tudalen 10, hepgorer llinell 2.

Janet Finch-Saunders 108

Section 14, page 10, line 14, after 'Wales', insert 'or the Welsh marine area'.

Adran 14, tudalen 10, llinell 13, ar ôl 'Nghymru', mewnosoder 'neu yn ardal forol Cymru'.

Janet Finch-Saunders 109

Section 14, page 10, line 19, after 'Wales', insert 'or the Welsh marine area'.

Adran 14, tudalen 10, llinell 18, ar ôl 'Nghymru', mewnosoder 'neu yn ardal forol Cymru'.

Janet Finch-Saunders 110

Section 14, page 10, line 27, after 'Wales', insert 'or the Welsh marine area'.

Adran 14, tudalen 10, llinell 26, ar ôl 'Nghymru', mewnosoder 'neu yn ardal forol Cymru'.

Janet Finch-Saunders 111

Section 14, page 10, line 32, after 'Wales', insert 'or the Welsh marine area'.

Adran 14, tudalen 10, llinell 31, ar ôl 'Nghymru', mewnosoder 'neu yn ardal forol Cymru'.

Janet Finch-Saunders 112

Section 14, page 10, after line 38, insert –

- '() The replacement infrastructure for the transfer or storage of waste water is a significant infrastructure project if –
- (a) the infrastructure is in Wales,
 - (b) the main purpose of the infrastructure is –
 - (i) the transfer of waste water for treatment, or
 - (ii) the storage of waste water prior to treatment, or both, and
 - (c) the replacement represents a capacity for the storage of waste water exceeding 350,000 cubic metres.'

Adran 14, tudalen 10, ar ôl llinell 37, mewnosoder –

- '() Mae'r seilwaith amnewid ar gyfer trosglwyddo neu storio dŵr gwastraff yn brosiect seilwaith arwyddocaol –
- (a) os yw'r seilwaith yng Nghymru,
 - (b) os prif ddiben y seilwaith yw –
 - (i) trosglwyddo dŵr gwastraff i'w drin, neu
 - (ii) storio dŵr gwastraff cyn ei drin,

neu'r ddau, ac

- (c) os yw'r amnewid yn cynrychioli capasiti i storio mwy na 350,000 o fetrau ciwbig o ddŵr gwastraff.'

Janet Finch-Saunders

46

Section 17, page 13, after line 13, insert –

- '() Regulations under subsection (1) may only be made following consultation with such persons as are deemed necessary.'

Adran 17, tudalen 13, ar ôl llinell 15, mewnosoder –

- '() Ni chaniateir i reoliadau o dan is-adran (1) gael eu gwneud ond ar ôl ymgynghori ag unrhyw bersonau y bernir eu bod yn angenrheidiol.'

Janet Finch-Saunders

113

Section 17, page 13, leave out lines 15 to 21 and insert –

- '() hydrogen distribution pipework;
- () carbon dioxide related facilities;
- () shared heat networks;
- () water supplies for the purposes of green hydrogen.'

Adran 17, tudalen 13, hepgorer llinellau 17 hyd at 23 a mewnosoder –

- '() pibellau dosbarthu hydrogen;
- () cyfleusterau cysylltiedig â charbon deuocsid;
- () rhwydweithiau gwresogi a rennir;
- () cyflenwadau dŵr at ddibenion hydrogen gwyrdd.'

Janet Finch-Saunders

114

Section 18, page 13, after line 30, insert –

- '(4) Where a development is partly in Wales or partly in the Welsh marine area, the Welsh Ministers must consult with the United Kingdom Government to seek to agree an approach in respect of that cross-border project.'

Adran 18, tudalen 13, ar ôl llinell 33, mewnosoder –

- '(4) Pan fo datblygiad yn rhannol yng Nghymru neu yn rhannol yn ardal forol Cymru, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i geisio cytuno ar ddull gweithredu mewn cysylltiad â'r prosiect trawsffiniol hwnnw.'

Julie James

156

Section 20, page 15, line 5, leave out 'or 110 of that Act (orders authorising the diversion of navigable and non-navigable' and insert 'of that Act (orders authorising the diversion of navigable'.



Adran 20, tudalen 15, llinell 6, hepgorer 'neu 110 o'r Ddeddf honno (gorchmynion sy'n awdurdodi dargyfeirio cyrsiau dŵr mordwyol ac anfordwyol' a mewnosoder 'o'r Ddeddf honno (gorchmynion sy'n awdurdodi dargyfeirio cyrsiau dŵr mordwyol'.

Julie James

157

Section 20, page 15, after line 8, insert –

- '(4) If infrastructure consent is required for the construction, improvement or alteration of a highway, section 110 of the Highways Act 1980 (c. 66) (power to authorise diversion of non-navigable waters) does not apply in relation to the highway or in connection with the construction, improvement or alteration of the highway.'

Adran 20, tudalen 15, ar ôl llinell 9, mewnosoder –

- '(4) Os yw cydsyniad seilwaith yn ofynnol i adeiladu, gwella neu addasu priffordd, nid yw adran 110 o Ddeddf Priffyrdd 1980 (p. 66) (pŵer i awdurdodi dargyfeirio dyfroedd anfordwyol) yn gymwys mewn perthynas â'r briffordd nac mewn cysylltiad ag adeiladu, gwella neu addasu'r briffordd.'

Janet Finch-Saunders

47

Page 15, line 30, leave out section 22.

Tudalen 15, llinell 32, hepgorer adran 22.

Janet Finch-Saunders

48

Page 16, line 15, leave out section 23.

Tudalen 16, llinell 18, hepgorer adran 23.

Janet Finch-Saunders

49

Page 17, line 4, leave out section 24.

Tudalen 17, llinell 4, hepgorer adran 24.

Julie James

158

Section 24, page 17, after line 9, insert –

- '(4) As soon as reasonably practicable after giving a direction under subsection (1), the Welsh Ministers must –
- (a) publish the direction, and
 - (b) lay a statement about the direction before Senedd Cymru explaining its effect and why it was made.'

Adran 24, tudalen 17, ar ôl llinell 10, mewnosoder –

- '(4) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru –

(a) cyhoeddi'r cyfarwyddyd, a

(b) gosod datganiad ynghylch y cyfarwyddyd gerbron Senedd Cymru yn egluro ei effaith a pham y'i gwnaed'.

Janet Finch-Saunders

50

Page 17, line 11, leave out section 25.

Tudalen 17, llinell 12, hepgorer adran 25.

Janet Finch-Saunders

51

Page 17, line 32, leave out section 26.

Tudalen 17, llinell 35, hepgorer adran 26.

Julie James

1

Section 26, page 18, line 2, after 'persons', insert 'or persons of a description'.

Adran 26, tudalen 18, llinell 2, ar ôl 'personau', mewnosoder 'neu'r personau o ddisgrifiad'.

Janet Finch-Saunders

115

Section 27, page 18, line 8, leave out 'a planning authority or'.

Adran 27, tudalen 18, llinell 8, hepgorer 'awdurdod cynllunio neu'.

Julie James

2

Section 27, page 18, line 8, after 'authority', insert ', Natural Resources Wales'.

Adran 27, tudalen 18, llinell 8, ar ôl 'cynllunio', mewnosoder ', Cyfoeth Naturiol Cymru'.

Janet Finch-Saunders

116

Section 27, page 18, line 14, leave out 'giving information about the range of pre-application services provided by a planning authority or the Welsh Ministers' and insert 'including publication on a website owned and operated by them giving information about the range of pre-application services provided by the Welsh Ministers and any applicable fees for the provision of those services'.

Adran 27, tudalen 18, llinell 15, hepgorer 'datganiad sy'n rhoi gwybodaeth ynghylch yr ystod o wasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir gan awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru' a mewnosoder 'datganiad, gan gynnwys cyhoeddi ar wefan y maent yn berchen arni ac yn ei gweithredu, sy'n rhoi gwybodaeth am yr ystod o wasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir gan Weinidogion Cymru ac unrhyw ffioedd cymwys ar gyfer darparu'r gwasanaethau hynny'.

Julie James

3

Section 27, page 18, line 15, after 'authority', insert ', Natural Resources Wales'.

Adran 27, tudalen 18, llinell 16, ar ôl 'cynllunio', mewnosoder ', Cyfoeth Naturiol Cymru'.

Janet Finch-Saunders

52

Section 28, page 19, line 20, after 'notice', insert ', which must not be less than 21 days of receipt of a notice'.

Adran 28, tudalen 19, llinell 20, ar ôl 'hysbysiad', mewnosoder ', na chaiff fod yn llai nag 21 o ddiwrnodau i hysbysiad ddod i law'.

Janet Finch-Saunders

53

Section 28, page 19, line 28, after 'fine', insert 'not exceeding level 5 on the standard scale'.

Adran 28, tudalen 19, llinell 29, ar ôl 'ddirwy', mewnosoder 'nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol'.

Julie James

159

Section 29, page 20, after line 22, insert –

- '() if the proposed development is located in an area for which there is a community council, the community council;
- () each Member of the Senedd representing an area in which the proposed development is located;
- () each Member of the House of Commons representing an area in which the proposed development is located;'

Adran 29, tudalen 20, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

- '() os yw'r datblygiad arfaethedig wedi ei leoli mewn ardal y ceir cyngor cymuned ar ei chyfer, y cyngor cymuned;
- () pob Aelod o'r Senedd sy'n cynrychioli ardal y lleolir y datblygiad arfaethedig ynddi;
- () pob Aelod o Dŷ'r Cyffredin sy'n cynrychioli ardal y lleolir y datblygiad arfaethedig ynddi;'

Julie James

4

Section 29, page 20, line 23, after 'area,', insert 'Natural Resources Wales and'.

Adran 29, tudalen 20, llinell 25, hepgorer 'pob' a mewnosoder 'Cyfoeth Naturiol Cymru a phob'.

Julie James

160

Section 29, page 20, line 23, after 'authority', insert 'and community council'.

Adran 29, tudalen 20, llinell 25, ar ôl 'cynllunio', mewnosoder 'a phob cyngor cymuned'.

Julie James 161

Section 29, page 20, after line 24, insert –

- () each Member of the Senedd and Member of the House of Commons the person considers appropriate;’.

Adran 29, tudalen 20, ar ôl llinell 26, mewnosoder –

- () pob Aelod o’r Senedd a phob Aelod o Dŷ’r Cyffredin y mae’r person yn ystyried ei fod yn briodol;’.

Julie James 5

Section 29, page 20, line 25, leave out ‘other persons’ and insert ‘any other person or person of a description’.

Adran 29, tudalen 20, llinell 27, hepgorer ‘personau eraill’ a mewnosoder ‘ unrhyw berson arall neu berson arall o ddisgrifiad’.

Janet Finch-Saunders 117

Section 29, page 20, line 26, leave out ‘comply with requirements specified in regulations’ and insert ‘be prepared in the form published for this purpose by the Welsh Ministers’.

Adran 29, tudalen 20, llinell 28, hepgorer ‘gydymffurfio â gofynion a bennir mewn rheoliadau’ a mewnosoder ‘gael ei lunio yn y ffurflen a gyhoeddir at y diben hwn gan Weinidogion Cymru’.

Janet Finch-Saunders 118

Section 29, page 20, line 27, leave out subsection (3) and insert –

- (3) The form published by the Welsh Ministers under subsection (2) must include, as a minimum –
- (a) a statement prepared by the applicant outlining how the applicant intends to consult with the local community living in the vicinity of the land on which the proposed development is located;
 - (b) how and when notice is to be given;
 - (c) any additional information that needs to accompany the notice.’.

Adran 29, tudalen 20, llinell 29, hepgorer is-adran (3) a mewnosoder –

- (3) Rhaid i’r ffurflen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (2) gynnwys, o leiaf –
- (a) datganiad sydd wedi ei lunio gan y ceisydd yn amlinellu sut y mae’r ceisydd yn bwriadu ymgynghori â’r gymuned leol sy’n byw yng nghyffiniau’r tir y lleolir y datblygiad arfaethedig arno;
 - (b) sut a phryd y mae hysbysiad i’w roi;
 - (c) unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen i fynd gyda’r hysbysiad.’.

Janet Finch-Saunders

119

Section 29, page 20, line 32, leave out 'specified in regulations under subsection (2)' and insert 'of subsections (2) to (3)'.

Adran 29, tudalen 20, llinell 34, hepgorer 'â'r gofynion a bennir mewn rheoliadau o dan is-adran (2)' a mewnosoder 'â gofynion is-adrannau (2) i (3)'.

Janet Finch-Saunders

120

Section 30, page 21, after line 9, insert –

'() The applicant must consult –

- (a) Natural Resources Wales;
- (b) the planning authority for each area in which the proposed development is located;
- (c) every owner, lessee, tenant or occupier of the land to which the proposed application relates;
- (d) the local community living in the vicinity of the land on which the proposed development is located;
- (e) other persons specified in regulations.'

Adran 30, tudalen 21, ar ôl llinell 10, mewnosoder –

'() Rhaid i'r ceisydd ymgynghori â'r canlynol –

- (a) Cyfoeth Naturiol Cymru;
- (b) yr awdurdod cynllunio ar gyfer pob ardal y lleolir y datblygiad arfaethedig ynddi;
- (c) pob perchennog, pob lesddeiliad, pob tenant neu bob meddiannydd y tir y mae'r cais arfaethedig yn ymwneud ag ef;
- (d) y gymuned leol sy'n byw yng nghyffiniau'r tir y lleolir y datblygiad arfaethedig arno;
- (e) personau eraill a bennir mewn rheoliadau.'

Julie James

6

Section 30, page 21, line 12, after 'persons', insert 'or persons of a description'.

Adran 30, tudalen 21, llinell 14, ar ôl 'personau', mewnosoder 'neu'r personau o ddisgrifiad'.

Delyth Jewell

141

Section 30, page 21, line 12, after 'consulted', insert 'which must include those who are likely to be affected by the application'.

Adran 30, tudalen 21, llinell 14, ar ôl 'hwy', mewnosoder 'ac y mae rhaid iddynt gynnwys y rhai y mae'r cais yn debygol o effeithio arnynt'.

Delyth Jewell 142

Section 30, page 21, line 19, after 'consultation', insert ', which must provide a minimum of 28 days for those consulted to respond to it'.

Adran 30, tudalen 21, llinell 22, ar ôl 'ymgyngoriad', mewnosoder ', y mae rhaid iddi ddarparu lleiafswm o 28 o ddiwrnodau i'r rhai yr ymgynghorir â hwy ymateb iddo'.

Janet Finch-Saunders 121

Page 21, after line 27, insert a new section –

[] Guidance about pre-application procedure

- (1) The Welsh Ministers may issue guidance about how to comply with the requirements of this Part.
- (2) A person who proposes to make an application for infrastructure consent ("the applicant") must have regard to any guidance issued under this section.'

Tudalen 21, ar ôl llinell 31, mewnosoder adran newydd –

[] Canllawiau ynghylch y weithdrefn cyn gwneud cais

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ynghylch sut i gydymffurfio â gofynion y Rhan hon.
- (2) Rhaid i berson sy'n cynnig gwneud cais am gydsyniad seilwaith ("y ceisydd") roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon.'

Janet Finch-Saunders 122

Page 21, after line 27, insert a new section –

[] Duty to take account of responses to consultation and publicity

- (1) The applicant must take into account any relevant responses received when deciding whether the application should be in the same terms as originally proposed.
- (2) A "relevant response" is a response received from a person consulted under section 30, received before any applicable deadline imposed has passed.'

Tudalen 21, ar ôl llinell 31, mewnosoder adran newydd –

[] Dyletswydd i ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a chyhoedduswydd

- (1) Rhaid i'r ceisydd ystyried unrhyw ymatebion perthnasol sy'n dod i law wrth benderfynu a ddylai'r cais fod ar yr un telerau ag y'u cynigiwyd yn wreiddiol.
- (2) Mae "ymateb perthnasol" yn ymateb sy'n dod i law gan berson yr ymgynghorir ag ef o dan adran 30, a hynny cyn i unrhyw ddyddiad cau cymwys a osodir fynd heibio.'

Adam Price [R] 197

Section 31, page 21, after line 35, insert –

'(d) where the development is of a kind listed in section 2(1)(a) to (d), include a collaborative benefits report.'

Adran 31, tudalen 21, ar ôl llinell 39, mewnosoder –

'(d) pan fo'r datblygiad o fath a restrir yn adran 2(1)(a) i (d), gynnwys adroddiad buddion cydweithredol.'

This amendment provides that collaborative benefits reports are made part of the infrastructure consenting process in Wales.

Mae'r gwelliant hwn yn darparu bod adroddiadau buddion cydweithredol yn cael eu gwneud yn rhan o'r broses cydsyniad seilwaith yng Nghymru.

Adam Price

198

Section 31, page 22, after line 16, insert –

'() In subsection 3([*paragraph to be inserted by amendment 197*])“collaborative benefits report” means a report that complies with requirements specified in regulations about the community benefits relevant to the development.'

Adran 31, tudalen 22, ar ôl llinell 18, mewnosoder –

'() Yn is-adran 3([*paragraff i'w mewnosod gan welliant 197*]), ystyr “adroddiad buddion cydweithredol” yw adroddiad sy'n cydymffurfio â'r gofynion a bennir mewn rheoliadau ynghylch y buddion cymunedol sy'n berthnasol i'r datblygiad.'

A regulation-making power is included to enable detailed requirements for the collaborative benefits report to be included in secondary legislation.

Mae pŵer i wneud rheoliadau wedi ei gynnwys i'w gwneud yn bosibl i ofynion manwl ar gyfer yr adroddiad buddion cydweithredol gael eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth.

Janet Finch-Saunders

54

Section 32, page 22, after line 19, insert –

'() The Welsh Ministers must make the decision required by subsection (1) within 28 days of receipt of the application.'

Adran 32, tudalen 22, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

'() Rhaid i Weinidogion Cymru wneud y penderfyniad sy'n ofynnol gan is-adran (1) o fewn 28 o ddiwrnodau i'r cais ddod i law.'

Julie James

7

Section 33, page 22, line 31, leave out 'and section 34 apply' and insert 'applies'.

Adran 33, tudalen 22, llinell 33, hepgorer 'ac adran 34'.

Julie James

162

Section 33, page 22, line 35, leave out 'the planning authority for each' and insert 'each planning authority for an'.

Adran 33, tudalen 22, llinell 37, hepgorer ‘i’r awdurdod cynllunio ar gyfer pob’ a mewnosoder ‘i bob awdurdod cynllunio ar gyfer’.

Julie James

163

Section 33, page 23, leave out line 1 and insert –

- () if the proposed development is located in an area for which there is a community council, to the community council;
- () to each Member of the Senedd representing an area in which the proposed development is situated;
- () to each Member of the House of Commons representing an area in which the proposed development is situated;’.

Adran 33, tudalen 23, hepgorer llinell 1 a mewnosoder –

- () os yw’r datblygiad arfaethedig wedi ei leoli mewn ardal y ceir cyngor cymuned ar ei chyfer, i’r cyngor cymuned;
- () i bob Aelod o’r Senedd sy’n cynrychioli ardal y lleolir y datblygiad arfaethedig ynddi;
- () i bob Aelod o Dŷ’r Cyffredin sy’n cynrychioli ardal y lleolir y datblygiad arfaethedig ynddi;’.

Julie James

164

Section 33, page 23, line 4, leave out –

‘the planning authority or community council they consider appropriate;’

and insert –

- ‘each planning authority and community council they consider appropriate;
- (iii) to each Member of the Senedd and Member of the House of Commons they consider appropriate;’.

Adran 33, tudalen 23, llinell 4, hepgorer –

‘i’r awdurdod cynllunio neu’r cyngor cymuned y maent yn ystyried ei fod yn briodol;’

a mewnosoder –

- ‘i bob awdurdod cynllunio a phob cyngor cymuned y maent yn ystyried ei fod yn briodol;
- (ii) i bob Aelod o’r Senedd a phob Aelod o Dŷ’r Cyffredin y maent yn ystyried ei fod yn briodol;’.

Julie James

8

Section 33, page 23, line 5, leave out ‘persons or descriptions of person’ and insert ‘person or person of a description’.

Adran 33, tudalen 23, llinell 6, hepgorer ‘bersonau neu ddisgrifiadau o bersonau’ a mewnosoder ‘berson neu berson o ddisgrifiad’.

Janet Finch-Saunders 123

Section 33, page 23, line 12, leave out ‘the minimum representation period specified in regulations’ and insert ‘a minimum representation period of 5 weeks’.

Adran 33, tudalen 23, llinell 15, hepgorer ‘y cyfnod byrraf ar gyfer sylwadau a bennir mewn rheoliadau’ a mewnosoder ‘cyfnod byrraf o 5 wythnos ar gyfer sylwadau’.

Janet Finch-Saunders 55

Section 33, page 23, line 21, after ‘persons’, insert ‘, and

- () publish a statement outlining the reasons for extending the deadline’.

Adran 33, tudalen 23, llinell 24, ar ôl ‘personau’, mewnosoder ‘, ac

- () cyhoeddi datganiad sy’n amlinellu’r rhesymau dros estyn y dyddiad cau’.

Julie James 9

Section 33, page 23, line 23, leave out ‘description of person’ and insert ‘person of a description specified in the direction’.

Adran 33, tudalen 23, llinell 26, hepgorer ‘ddisgrifiad o berson’ a mewnosoder ‘berson o ddisgrifiad a bennir yn y cyfarwyddyd’.

Julie James 10

Section 34, page 24, line 1, leave out ‘persons’ and insert ‘a person or person of a description’.

Adran 34, tudalen 24, llinell 1, hepgorer ‘bersonau’ a mewnosoder ‘berson neu berson o ddisgrifiad’.

Delyth Jewell 143

Section 35, page 24, after line 18, insert –

- ‘() Before submitting a local impact report, a planning authority or a community council (as the case may be) must consult locally on the contents of the report.’.

Adran 35, tudalen 24, ar ôl llinell 19, mewnosoder –

- ‘() Cyn cyflwyno adroddiad ar yr effaith leol, rhaid i awdurdod cynllunio neu gyngor cymuned (yn ôl y digwydd) ymgynghori’n lleol ar gynnwys yr adroddiad.’.

Janet Finch-Saunders 56

Section 36, page 24, after line 36, insert –

- ‘() Where Natural Resources Wales is to prepare a marine impact report for submission in accordance with this section, the Welsh Ministers must reimburse Natural Resources Wales in respect of the cost of obtaining advice from a marine archaeological expert.’.

Adran 36, tudalen 24, ar ôl llinell 38, mewnosoder –

- ‘() Pan fo Cyfoeth Naturiol Cymru i lunio adroddiad effaith ar y môr i’w gyflwyno yn unol â’r adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ad-dalu Cyfoeth Naturiol Cymru mewn cysylltiad â chost cael cyngor gan arbenigwr archaeolegol morol.’

Delyth Jewell

144

Section 36, page 24, after line 36, insert –

- ‘() Natural Resources Wales must consult on the content of a proposed marine impact report to be submitted in accordance with subsections (1) to (3) above, before submission of the report’.

Adran 36, tudalen 24, ar ôl llinell 38, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru ymgynghori ar gynnwys adroddiad effaith ar y môr arfaethedig i’w gyflwyno yn unol ag is-adrannau (1) i (3) uchod, cyn cyflwyno’r adroddiad.’

Julie James

11

Section 36, page 25, leave out line 9.

Adran 36, tudalen 25, hepgorer llinell 10.

Julie James

12

Section 38, page 25, line 25, leave out ‘require an applicant for infrastructure consent to carry out consultation’ and insert ‘make provision for and in connection with consultation by an applicant for infrastructure consent’.

Adran 38, tudalen 25, llinell 27, hepgorer ‘ei gwneud yn ofynnol i geisydd am gydsyniad seilwaith gynnal ymgynghoriad ar gais am gydsyniad seilwaith sy’n cynnwys archiad i awdurdodi caffael yn orfodol dir neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir’ a mewnosoder ‘wneud darpariaeth i geisydd am gydsyniad seilwaith ymgynghori ar gais am gydsyniad seilwaith sy’n cynnwys archiad i awdurdodi caffael yn orfodol dir neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir, ac mewn cysylltiad â hynny’.

Julie James

13

Section 38, page 25, line 28, leave out subsection (2).

Adran 38, tudalen 25, llinell 30, hepgorer is-adran (2).

Julie James

14

Section 38, page 25, line 32, leave out ‘(2)’ and insert ‘(1)’.

Adran 38, tudalen 25, llinell 34, hepgorer ‘(2)’ a mewnosoder ‘(1)’.

Julie James 15

Section 38, page 25, line 32, leave out 'about –

- (a) the persons required to be consulted;

and insert ' –

- (a) requiring specified persons to be consulted;
- (b) about the circumstances in which consultation is required;'

Adran 38, tudalen 25, llinell 35, hepgorer 'ynghylch –

- (a) y personau y mae'n ofynnol ymgynghori â hwy;'

a mewnosoder ' –

- (a) sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â phersonau penodedig;
- (b) ynghylch yr amgylchiadau pan fo ymgynghoriad yn ofynnol;'

Julie James 16

Section 38, page 25, at the beginning of line 34, insert 'about'.

Adran 38, tudalen 25, ar ddechrau llinell 37, mewnosoder 'ynghylch'.

Julie James 17

Section 38, page 26, at the beginning of line 1, insert 'about'.

Adran 38, tudalen 26, ar ddechrau llinell 1, mewnosoder 'ynghylch'.

Janet Finch-Saunders 124

Page 26, line 5, leave out section 39 and insert –

'39 The examining authority

In this Act, the "examining authority" means Planning and Environment Decisions Wales.'

Tudalen 26, llinell 5, hepgorer adran 39 a mewnosoder –

'39 Yr awdurdod archwilio

Yn y Ddeddf hon, ystyr "awdurdod archwilio" yw Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru.'

Delyth Jewell 145

Section 39, page 26, after line 11, insert –

- ‘() The document published in accordance with subsection (3) must make provision for the assessment of the expertise or experience of the person or panel of persons under consideration.’.

Adran 39, tudalen 26, ar ôl llinell 12, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i’r ddogfen a gyhoeddir yn unol ag is-adran (3) wneud darpariaeth ar gyfer asesu arbenigedd neu brofiad y person neu’r panel o bersonau o dan ystyriaeth.’.

Delyth Jewell

146

Section 41, page 27, leave out lines 5 to 6.

Adran 41, tudalen 27, hepgorer llinell 5.

Julie James

165

Section 41, page 27, after line 6, insert –

- ‘() And a determination must provide for examination of the application to include a hearing, unless –
- (a) the determination provides for a local inquiry to be conducted, or
 - (b) the examining authority considers that a hearing would not assist the examination.’.

Adran 41, tudalen 27, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

- ‘() A rhaid i ddyfarniad ddarparu y bydd archwiliad o’r cais yn cynnwys gwrandawriad, oni bai bod –
